**AC-06-01 (min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 5 Gorffennaf 2001

**Amser:** 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol Aelodau**

Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Jocelyn Davies Dwyrain De Cymru

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

**Swyddogion**

Syr John Bourn Archwiliwr Cyffredinol Cymru

Frank Grogan Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Gillian Body Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Dave Powell Swyddog Cydymffurfiaeth y

Cynulliad Cenedlaethol

Russell Keith Clerc y Pwyllgor

Phil Mulraney Dirprwy Glerc Dros Dro y Pwyllgor

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Sicrhau Dyfodol Bae**

**Caerdydd**

**Papur: AC-06-01 (p1)**

1. Roedd Helen Mary Jones yn cymryd lle Dafydd Wigley. Eithriwyd Peter

Law rhag cymryd rhan yn y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 12.7. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alison Halford a Lynne Neagle.

1.2 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd* a gyhoeddwyd ar 28ain Mehefin 2001.

1.3 Ceir adysgrif gair am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Tystion**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur:** AC-05-01 (min)

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

2.2 Yn dilyn eitem 4.4 o'r cofnodion hynny. Ystyriodd y Pwyllgor gais y Gweinidog Cyllid i ymestyn uchafswm yr amser a roddir i'r Cabinet i ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio o dan Reol Sefydlog 12.5 a chytunwyd i argymell ei fod yn cael ei ymestyn i 30 diwrnod gwaith.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio ar Esgeulustod Clinigol yn yr NHS yng Nghymru**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i eithrio’r cyhoedd o’r rhan hon o’r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

*"Gall bwyllgor benderfynu eithrio’r cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod lle:*

vi. *mae’r pwyllgor yn trafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae’n bwriadu ei gyhoeddi; neu’n paratoi i gymryd tystiolaeth gan unrhyw berson."*

2. Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys.

3.3 Daeth y cyfarfod i ben am 16.40.